# Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4248A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl 6

Yr hyn yr edrychom ni arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn 6

Strategaeth ddigidol y Cyngor 7

Yr hyn a ganfuom: Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddigidol ond nid yw wedi'i chostio'n llawn ac mae gwendidau yn y trefniadau i fonitro ac adolygu ei chyflawni 7

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio 11

# Crynodeb o’r adroddiad

## Crynodeb o’r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam mae dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau'r cyngor mewn ffordd fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol, mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion llesiant ac yn cyflawni gwaith datblygu cynaliadwy.

2 Gall cael dull strategol clir o ymdrin â digidol ddod â sawl budd megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio digidol a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer cymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
- ystyried adnoddau digidol dros y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir gyda'n gilydd;
- darparu fframwaith i fonitro cynnydd yn ei erbyn dros y tymor byr, y tymor hir a’r tymor canolig.

**Ffocws ein harchwiliad**

3 Gwnaethom edrych i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddigidol ond nid yw wedi'i chostio'n llawn. Er bod y strategaeth yn cyd-fynd â chynlluniau'r Cyngor a’r nodau llesiant cenedlaethol, nid yw'n cyd-fynd ag amcanion llesiant partneriaid. Nid yw’r strategaeth wedi’i chostio o hyd, gan effeithio ar y gallu i asesu ei gwerth am arian. Yn ogystal, nid eir i'r afael yn ddigonol â’r gwaith o fonitro cynnydd ac effaith, ac mae diffyg arfarnu a rhannu gwersi a ddysgwyd yn rheolaidd. Ni wnaeth y Cyngor ymgysylltu'n llawn ag amrywiaeth lawn y boblogaeth wrth ddatblygu’r strategaeth.

**Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

**Nodi anghenion adnoddau**

A1 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig.

**Trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu**

A2 Er mwyn sicrhau ei fod yn deall effaith ei strategaeth ddigidol yn well a'r cynnydd o ran ei chyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r modd y caiff y strategaeth ei chyflawni.

**Cryfhau cyfleoedd ymgysylltu**

A3 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, dylai'r Cyngor gryfhau ymgysylltiad â'r amrywiaeth lawn o'r bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni ei ddull strategol o ymdrin â digidol.

# Adroddiad Manwl

## Yr hyn yr edrychom ni arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Gwnaethom adolygu dull gweithredu strategol cynghorau o ran digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

2 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau Cabinet ac uwch-aelodau. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023.

3 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
- A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio?

4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn bwriadu eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

5 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2023.

## Pam yr ymgymerwyd â'r archwiliad hwn?

6 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7 Gwnaethom geisio:

- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;

- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;
- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau;
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

# Strategaeth Ddigidol y Cyngor

8 Cymeradwywyd Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 y Cyngor gan y Cabinet ym mis Mai 2023. Cyn hyn roedd y Cyngor wedi drafftio strategaethau cwsmeriaid a digidol, ond nid oedd y rhain wedi'u mabwysiadu.

# Yr hyn a ganfuom: Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth ddigidol ond nid yw wedi'i chostio'n llawn ac mae gwendidau yn y trefniadau i fonitro ac adolygu ei chyflawni

## Defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth o wybodaeth i lywio ei strategaeth ddigidol ond ni wnaeth ymgysylltu ag amrywiaeth lawn y boblogaeth

9 Defnyddiodd y Cyngor ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu ei strategaeth ddigidol. Ystyriodd y Cyngor ystod eang o ddata i ddeall y ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei strategaeth ddigidol nawr ac yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys data arolwg cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd, data adborth arolwg preswylwyr a gasglwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a data cwynion lleol. Defnyddiodd y Cyngor hefyd ar ei ddata gweithlu ei hun, gan gydnabod bod angen cael gweithlu sy'n ddigidol alluog. Er enghraifft, mae Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 yn cydnabod mai dim ond 49% o staff sy'n teimlo eu bod yn cael digon o hyfforddiant i wneud y defnydd gorau o dechnoleg a meddalwedd, gyda tharged wedi'i osod i gynyddu hyn i 70% erbyn 2026.

10 Wrth ddatblygu ei Strategaeth Ddigidol flaenorol 2021-23, ymgysylltodd y Cyngor ag ystod o wasanaethau mewnol a sefydliadau allanol gan gynnwys cynghorau cyfagos ar ddylunio gwasanaethau. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26.

11 Mae defnyddio ystod eang o ddata i ddeall y sefyllfa bresennol a thueddiadau tebygol yn y dyfodol yn cryfhau gallu'r Cyngor i ddatblygu dull strategol a fydd yn diwallu anghenion rhanddeiliaid ac yn sicrhau gwerth am arian.

12 Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth. Datblygodd y Cyngor 'Bersonâu Cwsmeriaid' fel targed cyflawnadwy, a oedd yn cyd-fynd â'r strategaeth ddigidol i helpu i lywio gwaith ailgynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Datblygwyd y personâu hyn gan ddefnyddio timau ar draws y Cyngor a chawsant eu llywio gan ffynonellau data mewnol ac allanol, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-20, Arolwg Preswylwyr 2021, data Cyfrifiad a data 'Galw Torfaen' 2021-22. Byddai'r personâu yn helpu i ddadansoddi taith arferol y cwsmer ac yn adlewyrchu anghenion arferol cwsmeriaid a fyddai'n defnyddio gwasanaethau, gan roi cipolwg defnyddiol i'r Cyngor i'w helpu i ddeall profiad a safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth, a gellid eu defnyddio er mwyn helpu i ddylunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

13 Cynhaliodd y Cyngor amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys gyda chynghorau tref a chymuned, fforymau 50+ a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid oedd yn ymgysylltu ag ystod amrywiol o grwpiau, gan gynnwys y rhai sy'n draddodiadol anodd eu cyrraedd a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad, ni all y Cyngor ddangos ei fod yn cynnwys amrywiaeth y boblogaeth yn llawn i gael dealltwriaeth gadarn o heriau ei ddinasyddion a'i gymunedau.

14 Mae peidio â chynnwys yr amrywiaeth lawn o'r rhai sydd â diddordeb yn natblygiad a chyflwyniad y strategaeth ddigidol yn peryglu dyluniad dulliau gweithredu nad ydynt yn diwallu anghenion dinasyddion nac yn sicrhau gwerth am arian.

## Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â'i gynlluniau a'i strategaethau eraill a'r nodau llesiant cenedlaethol, ond nid yw wedi ystyried ei heffaith ar amcanion llesiant ei bartneriaid

15 Mae gan Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 y Cyngor uchelgeisiau clir gyda chysylltiadau â'i Amcanion Llesiant. Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad Effaith Integredig i ddangos cyfraniad y strategaeth at bob un o'r nodau llesiant Cenedlaethol. Er enghraifft, un o bedair ffrwd waith cynllun carbon sero net y Cyngor yw 'digideiddio' i leihau carbon, ac mae asesiad effaith ehangach y strategaeth ddigidol yn nodi uchelgais i'r strategaeth ddarparu gwell mynediad i ddealltwriaeth data a thechnoleg glyfar.

16 Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â'i Gynllun Sirol sy'n cysylltu â Chynllun Llesiant Gwent a Strategaeth Ddigidol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol gyfrannu ar draws nodau llesiant ei bartneriaid. Mae cysoni ei strategaeth â'i chynlluniau a'i strategaethau ei hun a rhai cyrff cyhoeddus eraill yn lleihau'r risg o ddyblygu ac yn helpu i nodi cyfleoedd er mwyn sicrhau buddion lluosog.

17 Mae'r Cyngor yn cydweithio i gyflawni elfennau o'i strategaeth ddigidol, megis datblygu ei seilwaith digidol, drwy ei gyfranogiad yn y Gwasanaethau Rhannu Adnoddau (GRhA). Mae gwasanaethau rhannu technoleg y GRhR yn cynnwys llwyfannau digidol, adnoddau, cymorth digidol i staff a gwybodaeth ar draws rhan o ranbarth Gwent. Mae'r Cyngor yn cael adroddiadau monitro a gwerthuso misol ar y gwasanaeth GRhR, gan helpu i fonitro ei berfformiad.

18 Gall cydweithredu helpu'r Cyngor i nodi cyfleoedd i sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol. Mae monitro effeithiolrwydd unrhyw drefniadau partneriaeth hefyd yn rhan bwysig o drefniadau i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor wedi costio ei strategaeth ddigidol sy'n cyfyngu ar ei allu i fonitro gwerth am arian ei ddull

19 Nid yw'r Cyngor wedi costio ei strategaeth ddigidol yn y tymor byr, ac nid yw'r adnoddau tymor hwy sydd eu hangen i'w chyflawni wedi'u nodi. Nid oes unrhyw wybodaeth am y gyllideb yn y strategaeth na'r cynllun cyflawni ac mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen naill ai buddsoddi i arbed neu ailddosbarthu arian i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Cyngor wedi nodi rhai arbedion o fewn blwyddyn gyntaf cyflawni'r strategaeth ddigidol, sef tua £230,000 yn ymwneud â chaffael a thrawsnewid digidol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi arbedion arfaethedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu achosion busnes a gwneud cais am arian grant ond nid yw eto wedi dyrannu adnoddau i gyflawni ei uchelgeisiau. O ganlyniad, mae'n anodd i'r Cyngor fod yn sicr bod ei strategaeth yn gyraeddadwy o fewn yr amserlen tair blynedd. Mae absenoldeb costau hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor fonitro gwerth am arian y strategaeth. Byddai ystyried a fyddai modd defnyddio adnoddau'r Cyngor i sicrhau buddion yn y tymor hwy, a'r ffordd orau o wneud hynny, yn ei helpu i ddangos ei fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hefyd yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

20 Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae'r tymor hir yn ei olygu yng nghyd-destun ei strategaeth ddigidol ac mae'n cydnabod pa mor gyflym y mae'r amgylchedd digidol yn newid. Mae ei Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd gyda chynlluniau cyflawni blynyddol i'w sefydlu ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r cynlluniau cyflawni blynyddol yn rhoi hyblygrwydd i fod yn adweithiol i newidiadau yn yr amgylchedd digidol o fewn fframwaith Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26.

21 Mae Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 y Cyngor yn cynnwys enghreifftiau o sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei feddwl hirdymor. Er enghraifft, datblygu cynnwys gwefan y Cyngor a'i wasanaeth cymorth awtomataidd fel bot sgwrsio, taliadau awtomataidd a negeseua ciw. Yn y tymor hir, mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y cynnydd mewn hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn lleihau'r ymholiadau a ddaw i'r Cyngor ac yn gwneud y

wefan yn haws ei defnyddio. Mae hyn yn enghraifft o feddwl tymor hwy lle mae'r Cyngor yn buddsoddi i sicrhau buddion yn y tymor hwy.

## Ceir gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro cynnydd ac effaith ei ddull strategol ac nid yw'n gwerthuso ei ddull gweithredu fel mater o drefn nac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

22 Nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro effeithiolrwydd cyffredinol Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26. Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24 yn cynnwys camau gweithredu, mesurau perfformiad a therfynau amser chwarterol gyda swyddog cyfrifol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd cynnydd ac effaith gyffredinol y strategaeth yn cael eu monitro dros y tymor hir. Mae'r Cyngor yn datblygu Bwrdd Cymunedau a Chyflawni i fonitro cynnydd y rhaglen gyffredinol a'r prosiectau ynddi. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, nid oedd hyn wedi'i sefydlu. Mae monitro cynnydd ac effaith y strategaeth yn gyffredinol yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian ac i'r Cyngor wybod a yw'r strategaeth yn cael yr effaith a fwriedir ar y cyflymder bwriadedig.

23 Nid yw'r Cyngor wedi sefydlu mecanweithiau adolygu ffurfiol eto ar gyfer y cynlluniau blynyddol sy'n sail i'w Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26. Dysgodd y Cyngor wersi o bandemig Covid-19, gan gynnwys y galw cynyddol am ymgysylltu ar-lein a diffyg sgiliau digidol ymhlith staff. Arweiniodd hyn at ddarparu mwy o weithgarwch ymgysylltu ar-lein. Ymgorfforwyd y dysgu hwn yn Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf 2023-26 y Cyngor. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol ar waith eto i rannu'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r strategaeth ddigidol. Drwy beidio â rhannu gwersi fel rheol, mae'r Cyngor mewn perygl o golli cyfleoedd i wella prosesau, canlyniadau, a'i drefniadau i sicrhau gwerth am arian

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau y gwnaethom geisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn yr archwiliad: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (h.y. y galw/materion cyfredol i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â'r canlynol:<br>– heriau cynaliadwyedd/gwytnwch gwasanaethau ac adnoddau.<br>– anghenion y cyhoedd a'r gymuned.<br>– achosion sylfaenol y galw/materion cyfredol i'w datrys.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a sut y gallent effeithio, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, lleihau adnoddau naturiol ac yn enwedig datblygiadau technolegol. Gallant hefyd gynnwys y rhai sydd â mwy o ansicrwydd, e.e. swyddi a sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol. |
| | 1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio a'r heriau a'r cyfleoedd a allai ddeillio (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae'r dadansoddiad o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid yn cael ei lywio'n dda gan weithgarwch cyfranogi, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu arferion da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, cyngor ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau;<br>– llywio penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o ymdrin â digidol – h.y. pa mor bell ymlaen y gall/y dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno o ran canlyniadau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Ceir rhagor o wybodaeth yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a thymor hir a gwerth am arian, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
| --- | --- | --- |
| | | • Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd ei strategaeth ddigidol yn cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag sy'n ymarferol (gweler hefyd feini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio). |
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar eraill yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall beth mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn ymwneud â nhw, ac wedi ceisio integreiddio eu gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a chyda sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio yn amlwg wrth gysoni'r strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol eraill a chynlluniau gwasanaeth. Er enghraifft, cynllun ariannol tymor canolig, cynllun gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â dibenion strategol eraill megis:<br>– profiad y cwsmer;<br>– rheoli’r galw/gostyngiadau mewn methiannau ac atal y galw;<br>– dylunio a gweithredu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Strategaeth Ddigidol a chynlluniau llesiant Llywodraeth Cymru. |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni a'r effaith fwriadedig ar ddarparu gwasanaethau.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
| --- | --- | --- |
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni'r strategaeth ddigidol? | 3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ei strategaeth ddigidol a phwy y mae angen iddo ei gynnwys.<br>• Mae'r Cyngor i bob pwrpas wedi cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gallai fod wedi methu â chyrraedd o'r blaen. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gam cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio dyluniad a chyflwyniad ei strategaeth ddigidol. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft:<br>– rhannu neu gasglu arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth;<br>– sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes cyfan) a sut y gallai reoli risgiau/bodloni'r costau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'buddsoddi i arbed' a gostyngiadau rheoledig mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hir? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a/neu ddefnydd o adnoddau dros y tymor hwy yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr;<br>– lle mae'r buddion yn debygol o gael eu cronni gan, neu eu priodoli i sefydliad arall. |

| Cwestiynau lefel 2 | Cwestiynau lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hwy? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/amcanion ei bartneriaeth.<br>• Caiff cynnydd ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir. |
| 6. A yw'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>– economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r dysgu hwn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflwyno ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun:  029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.